

Crynodeb o'r Newidiadau Allweddol i'r Mynegai rhwng MALIC 2005 a MALIC 2019

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru rhwng 2005 a 2019. Yn ystod y cyfnod hwn, mae pum fersiwn lawn o MALIC wedi cael eu cyhoeddi, a hynny yn 2005, 2008, 2011, 2014 a 2019.

Mae strwythur a methodoleg gyffredinol MALIC wedi aros yn gymharol gyson ers iddo gael ei gynhyrchu am y tro cyntaf yn 2000 gan Adran Polisi Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Rhydychen. Fodd bynnag, mae dyluniad pob fersiwn o'r mynegai wedi amrywio rhywfaint i roi'r cipolwg gorau posibl o amddifadedd cymharol ar yr adeg cyhoeddi. Mae'r papur hwn ond yn edrych ar newidiadau ers MALIC 2005 gan mai hwn oedd y Mynegai cyntaf a oedd yn seiliedig ar ddaeyryddiaeth bresennol Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau).

Gellir disgrifio'r rhan fwyaf o'r newidiadau ers 2005 naill ai fel newidiadau i'r

Meysydd (mathau) o amddifadedd a/neu'r pwysoliad y maent yn ei gyfrannu at y mynegai cyffredinol

Neu;

Data sylfaenol y dangosyddion sydd wedi'u cynnwys ym mhob un o'r meysydd.

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau)

Mae newidiadau hefyd wedi cael eu gwneud i'r ardaloedd bach (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) sydd wedi cael eu rhoi mewn safleoedd MALIC ers 2005. Mae hyn wedi digwydd yn sgil newidiadau i ffiniau rhai o'r ardaloedd hyn yn dilyn Cyfrifiad 2011. Cafodd 1,896 o ACEHlau eu diffinio yn dilyn Cyfrifiad 2001 a 1,909 o ACEHlau eu diffinio yn dilyn Cyfrifiad 2011.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr ACEHlau ar [dudalen Ddaeyryddiaeth y Cyfrifiad ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#). Ceir disgrifiadau manylach am y math o newidiadau a wnaed i ffiniau'r ACEHlau rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011 yn [Adroddiad MALIC 2014](#), a disgrifiadau manylach ar [dudalennau gwe data.gov.uk](#).

Crynodeb o Newidiadau i'r Mynegai

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau lefel uchel a wnaed ym mhob fersiwn o'r mynegai ers MALIC 2005.

Gallwch weld gwybodaeth fanwl am ddyluniad pob fersiwn o MALIC yn yr Adroddiadau Technegol, sydd i'w canfod yn y [Canllawiau i'r Mynegai ac Archifau Data Hanesyddol](#) ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r [erthygl ganllaw ar ddadansoddi data dangosyddion](#) yn darparu gwybodaeth am sut i gymharu dangosyddion dros amser.

Mae'r dogfennau Ymgynghori a gyhoeddwyd ar gyfer [MALIC 2014](#) a [MALIC 2019](#) yn darparu gwybodaeth am pam y cafodd newidiadau eu gwneud i'r data, a'r materion a ystyriwyd wrth wneud y newidiadau hyn.

I gael yr wybodaeth lawn am MALIC, ewch i llyw.cymru/mallic

Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

Crynodeb o'r Newidiadau i'r Mynegai rhwng MALIC 2005 a MALIC 2019

Fersiwn MALIC	Ffiniau'r AGEHI	Y Newidiadau i'r Meysydd ers y mynegai diwethaf	Y Newidiadau i ddata sylfaenol y dangosyddion ers y mynegai blaenorol ¹
2005	Cyfrifiad 2001	Blwyddyn sylfaenol y mynegai	Blwyddyn sylfaenol y mynegai
2008	Cyfrifiad 2001	<p>Y Maes Diogelwch Cymunedol wedi'i ychwanegu i'r mynegai; pwysoliad o 5% yn y mynegai cyffredinol.</p> <p>Pwysoliadau'r meysydd Incwm a Chyflogaeth wedi gostwng o 25% i 23.5% yr un.</p> <p>Pwysoliadau'r meysydd lechyd ac Addysg wedi gostwng o 15% i 14% yr un.</p>	<p>Meysydd Incwm a Chyflogaeth</p> <p>Newid bach iawn i'r fethodoleg, ond mae newidiadau i'r system les yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf ar gyfer rhai budd-daliadau wedi newid.</p> <p>Maes lechyd</p> <p><i>Dangosydd newydd:</i> Pwysau Geni Isel Babanod Unigol</p> <p>Maes Addysg</p> <p><i>Dangosyddion newydd:</i> Cyfradd Absenoldeb Ysgolion Cynradd, Cyfran y bobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn Addysg Bellach a chyfran y bobl ifanc 18-19 oed nad ydynt yn mynd ymlaen i Addysg Uwch (arferai fod yn rhan o ddangosydd cyfunol yn mesur y bobl ifanc 16-18 oed mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch).</p> <p>Maes Mynediad at Wasanaethau</p> <p><i>Dangosydd newydd:</i> Amser teithio cyfartalog at Nodau Trafnidiaeth (gwasanaethau trafndiaeth)</p>

¹ Ni chaiff newidiadau bach i'r rhifiaduron, enwaduron a'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo pob dangosydd, yn ogystal â newidiadau i bwysoliadau'r dangosyddion o fewn pob maes, eu cynnwys yn y crynodeb hwn. Caiff yr wybodaeth hon ei chynnwys yn yr Adroddiad Technegol ar gyfer pob mynegai.

			<p><i>Newidiadau methodolegol:</i> Amseroedd cyfartalog a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd dangosyddion, mewn cyferbyniad i amseroedd trothwy.</p> <p>Maes Amgylchedd Ffisegol</p> <p><i>Newidiadau methodolegol:</i> Gwnaed gwelliannau i'r dangosyddion Llygredd Aer, y Perygl o Lifogydd ac Agosatrydd at safleoedd Gwaredu Gwastraff a Safleoedd Diwydiannol.</p> <p>Maes Diogelwch Cymunedol</p> <p>Maes newydd gyda phedwar dangosydd: Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu (bwrghleriaeth, difrod troseddol, dwyn a throseddau treisgar), Canran y Troseddwyr Ifanc, Canran Troseddwyr sy'n Oedolion, Mynychder Tanau.</p>
2011	Cyfrifiad 2001	Dim newidiadau	<p>Newid bach - Dim Newidiadau i'r fethodoleg, ac eithrio pan fo cyfyngiadau data yn golygu nad oedd modd osgoi hyn.²</p>
2014	Cyfrifiad 2011	Dim newidiadau	<p>Meysydd Incwm a Chyflogaeth</p> <p>Newid bach iawn i'r fethodoleg, ond mae newidiadau i'r system les yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf ar gyfer rhai budd-daliadau wedi newid.</p> <p>Maes Addysg</p> <p><i>Dangosyddion newydd:</i> Cyfnod Allweddol (CA) 4 Lefel 2 Cynhwysol, Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio CA4, Absenoliaeth Mynych.</p> <p><i>Dangosyddion a ddilëwyd:</i> Sgôr Pwyntiau Cyfartalog CA3, Sgôr Pwyntiau Cyfartalog CA4, Cyfradd Absenoldeb Ysgolion Cynradd a Chyfradd Absenoldeb Ysgolion Uwchradd.</p>

² Roedd y safleoedd ar gyfer y meysydd Mynediad at Wasanaethau a Thai yr un fath yn 2008 a 2011 gan na chafodd data eu diweddarau ar gyfer y meysydd hyn pan cafodd mynegai 2011 ei gynhyrchu.

		<p>Maes Mynediad at Wasanaethau</p> <p><i>Dangosyddion newydd:</i> Amseroedd teithio cyfartalog (mewn munudau) gan drafnidiaeth breifat a chyhoeddus i'r Fferyllfa, amseroedd teithio cyfartalog gan drafnidiaeth breifat i'r Ysgol Uwchradd, Siop Fwyd, Meddygfa Teulu, Swyddfa'r Post, Ysgol Gynradd, Llyfrgell Cyhoeddus, Canolfan Hamdden a Gorsaf Betrol.</p> <p><i>Dangosyddion a ddilëwyd:</i> Amseroedd teithio cyfartalog gan drafnidiaeth gyhoeddus at Ddeintydd y GIG a Nodau Trafnidiaeth.</p> <p>Maes Diogelwch Cymunedol</p> <p><i>Dangosydd newydd:</i> Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.</p> <p><i>Dangosyddion a ddilëwyd:</i> Canran y Troseddwr sy'n Oedolion, Canran y Troseddwr Ifanc.</p>
--	--	--

<p>2019</p>	<p>Cyfrifiad 2011</p>	<p>Pwysoliadau'r meysydd Incwm a Chyflogaeth wedi gostwng o 23.5% i 22% yr un.</p> <p>Pwysoliad y maes lechyd yn cynyddu o 14% i 15%</p> <p>Pwysoliad y maes Tai yn cynyddu o 5% i 7%</p>	<p>Meysydd Incwm a Chyflogaeth</p> <p>Mae newidiadau i'r system les yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf ar gyfer rhai budd-daliadau wedi newid. Yn sgil y diweddariad i ddata'r dangosyddion yn 2016, cafodd rhai hawlwr Credyd Cynhwysol eu cynnwys (ac yn 2017, eu dibynyddion).³</p> <p>Maes lechyd</p> <p><i>Dangosyddion newydd:</i> Cyflyrau Cronig a gofnodwyd gan feddygon teulu, y Gyfradd Marw Cyn Pryd, Cyflyrau lechyd Meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu, Plant 4-5 oed sy'n Ordew.</p> <p><i>Dangosydd a ddilëwyd:</i> Cyfradd Marwolaethau o bob achos (ar gyfer pob oedran).</p> <p>Maes Addysg</p> <p><i>Dangosyddion newydd:</i> Sgôr Pwyntiau Cyfartalog y Cyfnod Sylfaen, Sgôr Pwyntiau Cyfartalog CA4, Cyfran y rheini sy'n gadael CA4 sy'n mynd i Addysg Uwch.</p> <p><i>Dangosyddion a ddilëwyd:</i> CA4 Lefel 2 Cynhwysol, Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio CA4, Cyfran y bobl nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch yn 18-19 oed.</p> <p>Maes Mynediad at Wasanaethau</p> <p><i>Dangosyddion newydd:</i> Amseroedd teithio cyfartalog gan drafnidiaeth breifat a chyhoeddus i Gyfleusterau Chwaraeon (gan ddisodli amseroedd teithio i Ganolfannau Hamdden gan fod y diffiniad wedi newid), Canran y band eang nad yw ar gael ar 30Mb/s.</p> <p><i>Newidiadau methodolegol:</i> Methodoleg newydd ar gyfer cyfrifo amseroedd teithio.</p>
-----------------------------	-----------------------	--	--

³ Caiff rhai dangosyddion eu diweddaru rhwng diweddariadau llawn y mynegai; gweler yr [erthygl canllaw ar ddadansoddi data dangosyddion](#) i gael rhagor o fanylion.

			<p>Y Maes Tai</p> <p><i>Dangosydd enghreifftiol newydd:</i> Y tebygolrwydd o Dai o Ansawdd Gwael</p> <p><i>Dangosydd a ddilëwyd:</i> Diffyg Gwres Canolog (Cyfrifiad 2011)</p> <p>Maes Amgylchedd Ffisegol</p> <p><i>Dangosyddion Newydd:</i> Gwerthoedd Crynodiad Cyfartalog wedi'u pwysoli gan y boblogaeth ar gyfer Nitrogen Deuocsid (NO₂) wedi'i Bwysoli yn ôl y Boblogaeth, Gronynnau <10µm, a Gronynnau <2.5 µm, Agosatrwydd at Fannau Gwyrdd Naturiol hygyrch, Sgôr Mannau Gwyrdd Amgylchol.</p> <p><i>Dangosyddion a ddilëwyd:</i> Crynodiadau Ansawdd Aer, Allyriadau Aer ac Agosatrwydd at safleoedd Gwaredu Gwastraff a Safleoedd Diwydiannol.</p> <p><i>Newidiadau Methodolegol:</i> Llifogydd dŵr wyneb bellach wedi'i gynnwys yn y dangosydd Perygl Llifogydd</p>
--	--	--	---